

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd yn
Siambwr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion ddydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2019**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd); y Cynghorwyr Marc Davies, Keith Evans, Wyn Thomas ac Ivor Williams

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Mrs Louise Harries, Cyfreithwraig a Mr Andrew Harries, Prif Swyddog Ystadau.

(1:30pm – 1:42pm)

- 1 **Gweithdrefn**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Hinge, Endaf Edwards, Gwyn James a Mark Strong am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.
- 3 **Materion Personol**
Ni chodwyd unrhyw faterion personol.
- 4 **Datgan Buddiannau Personol a Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.
- 5 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2019**
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2019 yn rhai cywir.
- 6 **Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.
- 8 **Neuadd Goffa Cei Newydd**
Dywedodd Louise Harries, Cyfreithwraig, fod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yn rhaid rhoi'r brydles ar waith a gwario'r gyllideb erbyn 31 Mawrth 2020, er mwyn cael cymeradwyaeth lawn am gyllid. Mae angen cadarnhad gan y Comisiwn Elusennol a oes angen Cynllun cyn y gellir rhoi prydles ar waith, go brin y ceir ymateb amserol bellach.

Mae rhybudd safle o un mis wedi ei osod ar y safle mewn perthynas â'r brydles arfaethedig. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion hyd yma a chyflwynir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Louise Harries mai'r bwriad, fel rhan o'r brydles arfaethedig, oedd dyfarnu trwydded i'r tenant yn cydsynio i waith y grant a bod y Sefydliad Corfforedig Elusennol wedi cynnig i'r drwydded hon gael ei dyfarnu, er mwyn iddynt allu dechrau ar y gwaith, gyda'r Sefydliad

Corfforedig Elusennol yn ysgwyddo'r risg llawn o ran costau ac o ran indemnio'r Cyngor, fel ymddiriedolwr, rhag pob atebolrwydd.

Nodwyd nad oedd gan yr Ystadau unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn ac y ceisir am gydsyniad yswiriwr y Cyngor. Mae'r grŵp wedi llofnodi'r drwydded o flaen llaw, yn amodol ar benderfyniad y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

Cadarnhaodd Louise Harries y bydd hi'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i'w diweddarau ar y cynigion o safbwynt y drwydded, fel eu bod yn ymwybodol o'r un pethau. Bydd Louise yn gofyn hefyd a fyddai'r drwydded yn ddigon ohoni'i hun i ryddhau arian ond go brin mai felly y bydd hi.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor:

Fod swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn cytuno ar drwydded waith gyda Sefydliad Corfforedig Elusennol 'Neuadd Goffa Cei Newydd' ac yn cwblhau'r drwydded a bod y Sefydliad Corfforedig Elusennol yn unig yn gyfrifol am y gost a'r risg, a hynny'n amodol ar dderbyn gwybodaeth bod yswiriwr yr ymddiriedolaeth yn fodlon ar y gwaith arfaethedig.

9 **Unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys y Pwyllgor ym marn y Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w hystyried.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar xxxxxxxx

CADEIRYDD:
